Carcharorion - problemau gydag eiddo

Beth allwch chi ei wneud i ddiogelu'r hyn nad ydych yn mynd â nhw gyda chi i'r carchar

Os ydych yn mynd i'r carchar, fe allwch chi fynd â rhai pethau gyda chi i'r carchar. Mae yna gamau y gallwch eu cymryd i ddiogelu'r pethau eraill sydd gennych.

Er enghraifft, os oes gennych gar, fe allech chi geisio ei symud oddi ar y ffordd fawr a chanslo'ch treth ffordd ac yswiriant.

Efallai y gallwch chi ddiogelu'r hyn sydd yn eich cartref gyda pholisi yswiriant y cartref. Os oes gennych bolisi, gwiriwch pryd mae'r premiwm yn ddyledus ac os ydyw'n ddilys os ydych chi i ffwrdd o'r cartref. Os oes gennych gofnod troseddol, efallai na fyddwch yn gallu hawlio ar eich polisi yswiriant os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, ac felly efallai y bydd yn werth i chi dalu yswiriant tŷ. Gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant.

Os fyddwch chi'n colli'ch tŷ oherwydd mynd i garchar, fe fydd angen i chi drefnu beth i'w wneud â'ch eiddo. Ceisiwch gael aelodau o'r teulu neu ffrindiau i ofalu amdanynt. Efallai y gallwch roi eich celfi a'ch dillad i'w storio ond gall hyn fod yn ddrud.

Yr hyn y gellir eu cadw yn y carchar
Mae gan bob carchar ei reolau ei hun ynglŷn â beth y gellir ei gadw yn y carchar. Mae cyfanswm yr eiddo y gallwch ei gael yn eich cell yn cael ei gyfyngu i eiddo sy'n gallu ffitio i ddau focs. Os oes gennych fwy o eiddo na'r hyn y caniateir, efallai y bydd y carchar yn eu storio i chi ond nid os ydych ar remand. Mae Llyfryn Gwybodaeth Carcharorion yn rhoi manylion i chi o beth y caniateir i chi eu cadw - gweler Cymorth ychwanegol ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

Eich eiddo yn mynd ar goll neu'n cael ei ddifrodi
Os ydych chi'n cadw eiddo yn eich cell, rydych yn gwneud hynny ar eich cyfrifoldeb eich hun. Fydd y Gwasanaeth Carchardai ddim yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo sydd yn y gell oni bai y gellir dangos fod y golled neu'r difrod wedi digwydd achos nad oedden nhw wedi cymryd digon o ofal o'ch eiddo. Gall hyn fod yn anodd iawn i'w brofi ac fe ddylech chi geisio ymdrechu cadw'r hyn rydych chi wir angen yn unig. Nid yw unrhyw beth a gedwir yn y gell o dan eich rheolaeth chi pan rydych allan o'r gell.

Er nad yw'r Swyddfa Gartref a Gwasanaeth y Carchardai yn arfer cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol am golli unrhyw eiddo neu ddifrod i eiddo a gedwir gan y carcharor, gellir rhoi iawndal. Gall rheolwyr y carchar ddelio â cheisiadau i fyny hyd at £3,000. Cyfeirir ceisiadau am fwy na hyn at ganolfan Gwasanaeth y Carchardai. Os ydych chi am hawlio iawndal, cwblhewch ffurflen gwyno. Os nad yw hyn yn llwyddo i ddatrys y broblem, gall yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf edrych i mewn i'r mater. Fe all fod yn bosibl hefyd i fynd i'r llys i gael iawndal.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Storio eiddo yn y carchar
Anfonir eiddo nas gellir ei gadw gyda chi yn y gell i storfa eiddo canolog y tu allan i'r carchar. Fe'u cedwir mewn cynhwysydd wedi'i selio a chânt eu rhestru. Fe ddylech ddarllen y rhestr yn ofalus cyn ei llofnodi a chytuno fod y cynhwysydd wedi'i selio yn eich gŵydd.

Pan ryddheir chi o'r carchar, defnyddir y rhestr fel prawf o'r eitemau gaiff eu storio gan y carchar. Fe fydd yn anodd i chi ddadlau fod eitemau wedi mynd ar goll os na lofnodoch chi'r rhestr yn gywir yn y lle cyntaf. Os na allwch chi ddarllen neu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, gofynnwch am help oddi wrth staff y carchar.

Y carchar yn mynd â'ch eiddo oddi wrthych
Os yw'r rheolwr yn credu y gall cyfanswm yr eiddo sydd gennych yn eich cell ei gwneud hi'n anodd cyflawni chwiliadau, gellir mynd â'ch eiddo oddi wrthych. Mae hyn yn berthnasol hefyd os bydd y rheolwr yn credu y gall eich eiddo beryglu iechyd a diogelwch neu os ydynt yn berygl i drefn a disgyblaeth dda. Gellir mynd â'ch eiddo oddi wrthych hefyd fel cosb os ydych wedi torri rheolau'r carchar. Gellir eu cymryd am i fyny hyd at 42 o ddiwrnodau (21 diwrnod i droseddwyr ifanc).

Efallai yr archwilir eich eiddo a'ch cell am resymau diogelwch. Mae pa mor aml y bydd hyn yn digwydd yn dibynnu ar y math o garchar rydych chi ynddo a pha gategori o garcharor ydych chi. Efallai y caiff eitemau eu cymryd o'ch cell i'w harchwilio'n fwy manwl, er enghraifft, trwy ddefnydd peiriannau pelydr-x. Efallai yr archwilir eich dogfennau cyfreithiol ond ni fydd staff y carchar yn eu darllen.

Os oes gennych gwyn ynglŷn â sut y cyflawnir y chwiliadau, er enghraifft, os ydych yn credu eich bod yn cael eich dewis yn annheg oherwydd eich hil, crefydd neu anabledd, fe allwch wneud cwyn.

Arian
Cymerir unrhyw arian y byddwch yn mynd gyda chi i'r carchar oddi arnoch a'i rhoi mewn cyfrif carchar arbennig yn eich enw. Cyfeirir at hwn fel eich cyfrif arian preifat.

Gall eich teulu neu ffrindiau anfon arian i mewn atoch, os ydyw'r rheolwr yn cytuno. Os caniateir iddynt anfon arian i chi fe ddylent bostio archebion post neu sieciau. Rhaid i'r rhain fod yn daladwy i Wasanaeth Carchardai EM. Rhaid i'r person sy'n anfon yr arian ysgrifennu eu henw a'u cyfeiriad yn ogystal â'ch enw chi a'ch rhif carchar wrth anfon yr arian.

Gall gymryd peth amser i'r arian gael ei gredydu i'ch cyfrif. Os yn bosibl, fe ddylech chi geisio mynd â pheth arian gyda chi i'r carchar er mwyn prynu pethau sylfaenol wrth i chi gyrraedd gyntaf. Ond os nad oes arian gennych wrth i chi gyrraedd y carchar, fe ellir rhoi benthyg arian i chi i brynu pethau sylfaenol. Rhaid i chi dalu'r arian hwn yn ôl cyn i chi adael y carchar.

Os ydych chi'n gweithio neu'n cymryd rhan mewn astudio neu hyfforddiant yn y carchar, cewch arian wedi'i gredydu i'ch cyfrif enillion hefyd.

Fe allwch chi wario faint fynnoch chi o'ch enillion ond mae yna gyfyngiad ar faint o arian preifat y gallwch ei wario. Os ydych chi'n garcharor cenedlaethol o dramor, fe allwch chi wario mwy o arian ar gardiau ffôn ar gyfer galwadau ffôn rhyngwladol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os ydych chi'n fam gyda babi yn y carchar, fe allwch chi wario mwy o arian ar bethau i'r babi.

Fe allwch chi anfon arian allan o'r carchar, i helpu eich teulu neu ffrindiau. Gall hyn ddod o'ch cyfrif arian preifat neu eich cyfrif enillion. Gofynnwch i'ch swyddog asgell os ydych am anfon arian allan.

Gellir mynd â'r holl arian sydd yn eich cyfrifon carchar gyda chi pan fyddwch yn gadael y carchar.

Llyfrau a chylchgronau
Rhaid i chi archebu llyfrau a chylchgronau yn uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr neu lyfrwerthwr oni bai eich bod yng nghategori C neu D. Gall y rheolwr wrthod caniatâd i archebu rhai llyfrau neu bapurau newyddion, megis llyfrau mewn ieithoedd tramor neu gylchgronau pornograffig. Sut bynnag, gall y rheolwr wrthod caniatâd am lyfrau neu gylchgronau am resymau arbennig yn unig:
Y rhesymau yw:

- maent yn fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol,
- fe fyddent yn cael effaith andwyol ar eich cyflwr corfforol neu feddyliol
- maent yn fygythiad i drefn a disgyblaeth dda neu les y carchar .

Os na allai'r llyfr gael yr effaith hwn, fe allech herio penderfyniad y rheolwr. Gweler y daflen ffeithiau a elwir yn **Cwyno.**

Gorchmynion atafaelu
Os ceir chi'n euog o droseddau arbennig, gall y llys drefnu gorchymyn atafaelu. Mae hyn yn golygu fod y llys yn eich gorchymyn i dalu swm o arian sy'n cyfateb i'r swm o arian gawsoch chi drwy'r drosedd, yn eu barn hwy. Os nad yw'r arian gennych, gellir cymryd eiddo arall sy'n perthyn i chi yn ei le. Os nad ydych yn talu, caiff eich dedfryd ei chynyddu.

Os gwnaed gorchymyn atafaelu, efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch os ddylech chi apelio yn ei erbyn ai peidio. Efallai y bydd angen cyngor ar wahân ar eich partner os ydyw cartref y teulu neu unrhyw eiddo ar y cyd arall ynghlwm.

Gorchmynion Enillion trwy Ecsbloetio
Os ceir chi'n euog o droseddau arbennig a chwithau'n gwneud arian o'r drosedd, gall yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) wneud cais i'r llys am orchymyn enillion trwy ecsbloetio. Er enghraifft, gall hyn ddigwydd os cewch arian am ysgrifennu llyfr neu roi cyfweliad i'r teledu. Fe ddylech chi gael cyngor cyfreithiol os cewch chi orchymyn enillion trwy ecsbloetio.

Eiddo wrth i chi adael y carchar
Pan fyddwch chi'n gadael y carchar, dylai'r carchar ddychwelyd eich holl feddiannau ac eiddo sydd wedi'u storio i chi. Bydd yn rhaid i chi arwyddo ar eu cyfer. Mae'n bwysig gwirio trwy bopeth cyn arwyddo a pheidio ag arwyddo am ddim sydd ar goll.

Os oes rhywbeth ar goll, cyfrifoldeb Gwasanaeth y Carchardai yw dod o hyd iddynt neu gael rhai eraill yn eu lle. Yn ymarferol fe all fod yn anodd eu cael i wneud hyn. Fe allwch hawlio yn erbyn y carchar yn y llys sirol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os adawoch chi feddiannau ar ôl wrth i chi fynd i'r carchar ac mae'r rhain bellach ar goll, fe allech chi wneud cais am grant gofal cymunedol er mwyn adnewyddu dillad neu gelfi sylfaenol.

Os collwyd papurau personol megis tystysgrifau geni neu basborts, fe ddylech chi allu cael copïau. Fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu am gopïau. Os ydych chi wedi colli papurau mewnfudo, efallai y byddwch yn gallu cael copïau o'r Swyddfa Gartref. Mynnwch gyngor cyfreithiol arbenigol ynglyn â hyn.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os ydych yn y carchar, dylech wirio i weld os ydynt yn rhedeg y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, ysgrifennwch at eich CAB lleol ac esboniwch eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar a hoffech ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion - cwyno
- Rhyddhau o'r carchar
- Carcharorion - cael cymorth ychwanegol
- Grantiau gofal cymunedol

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr